Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# Cynllun gweithredu strategol ar gyfer meithrin gallu ymchwil ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd yng Nghymru

## Mehefin 2025

# Rhagair

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Fel llywodraeth, rydym yn ymwybodol bod defnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn hollbwysig o ran gwella ansawdd gofal.  Mae ymchwil yn allweddol wrth greu'r sylfaen dystiolaeth honno, ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gosod y sylfeini ar gyfer canlyniadau gwell i gleifion, pobl a chymunedau.

Mae nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn chwarae rhan fawr wrth gyflawni fy nodau o wella iechyd y boblogaeth, gan ofalu am bobl ar hyd eu bywyd; yn ystod salwch, wrth iddynt wella ac ar ddiwedd eu bywyd, yn ogystal ag atal salwch, diogelu iechyd a hyrwyddo llesiant.  Rwy'n cydnabod eu bod nhw'n gwneud hynny drwy weithio mewn llawer o ffyrdd gwahanol, gan addasu i fodelau newydd o ddarparu gwasanaethau a sicrhau bod gofal effeithiol, diogel o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu mewn amgylcheddau dwys, cymhleth a llawn straen ar draws yr holl sectorau.

'Mae ymchwil i bawb', p'un a yw'n ymwneud â defnyddio'r dystiolaeth orau, datblygu prosiectau sy'n mynd i'r afael ag angen dybryd ar gyfer ein gwasanaethau neu ddarparu triniaethau newydd ac arloesol.  Rwy'n cydnabod bod ymchwil yn darparu cyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu a gwella rolau swyddi, sy'n helpu i recriwtio a chadw pobl, yn ogystal â datblygu arweinwyr a meddylwyr beirniadol.

Felly, rwy'n falch iawn bod y cynllun gweithredu ymchwil hwn, a gomisiynwyd gan Brif Swyddog Nyrsio a Phrif Gynghorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru yn amlinellu camau gweithredu pendant i wella ymarfer a meithrin capasiti a gallu, gan arwain yn y pen draw at ganlyniadau gwell i gleifion.

Rwy'n edrych ymlaen at weld y gymuned yn gweithio gyda'i gilydd i roi'r cynllun gweithredu ymchwil hwn ar waith.  Fel gweithlu gwerthfawr, mae defnyddio capasiti cyfunol nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd i greu effaith drwy ymchwil ac arloesi yn allweddol i Gymru Iachach.

## Prif Swyddog Nyrsio a Phrif Gynghorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd

Fel pennaeth proffesiynau Llywodraeth Cymru ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth a'r proffesiynau perthynol i iechyd yng Nghymru, rydym yn falch o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Ymchwil hwn ar gyfer meithrin gallu ymchwil ar draws ein proffesiynau.

Mae'r cynllun hwn yn amserol ac yn drawsnewidiol.  Mewn system iechyd a gofal sy'n esblygu'n gyflym mewn ymateb i heriau demograffig, technolegol a chymdeithasol a heriau sy'n ymwneud â'r gweithlu, nid yw rôl ymchwil erioed wedi bod mor bwysig.  Nid rhywbeth ychwanegol, dewisol mo ymchwil, mae'n chwarae rhan hollbwysig wrth sicrhau bod modd darparu gofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae'n ysgogi arloesedd a gwelliant.

Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, nyrsys a bydwragedd yn rhan hanfodol o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach yng Nghymru.  Bob

dydd, ar draws pob rhan o wasanaethau iechyd a gofal, maent yn darparu gofal sy’n gwella bywydau. Ond maent hefyd yn ceisio gwella’r gofal hwnnw’n barhaus a’i foderneiddio. I wneud hynny, maent yn gofyn cwestiynau, yn ceisio tystiolaeth, yn profi syniadau, yn arwain newid ac yn arloesi i ddiwallu anghenion unigolion a chymunedau. Mae’r cynllun hwn yn cydnabod ac yn hyrwyddo’r cyfraniad hwnnw ac mae’n nodi cyfeiriad clir er mwyn sicrhau bod ymchwil yn dod yn rhan greiddiol a gwerthfawr o bob rôl broffesiynol, o fyfyrwyr i uwch arweinwyr, mewn cyd-destunau clinigol, academaidd, iechyd cyhoeddus, gofal cymdeithasol a pholisi.

Yr hyn sy’n gwneud y cynllun hwn yn arbennig o bwerus yw’r ffordd y mae wedi’i greu. Mae prosiect BLAENORIAETH wedi gwrando’n ofalus ar leisiau’r rhai sy’n ymarfer a’r rheini ym meysydd addysg, ymchwil ac arweinyddiaeth ar bob lefel, gan ddefnyddio dulliau cynhwysol a chyfranogol i nodi syniadau a rhwystrau ac i gyd-ddylunio atebion. Mae’n adlewyrchu ein cyd-destun yn y byd go iawn a’n huchelgais gyffredin, wedi’i llywio gan y rhai a fydd yn bwrw ati i’w chyflawni. Nid glasbrint o’r brig i’r bôn mohono; yn hytrach, mae’n gynllun gweithredu cyfunol, deinamig ar gyfer newid.

Drwy’r cynllun hwn, rydym yn ymrwymo i wneud y canlynol:

- ymwreiddio diwylliant lle mae ymchwil yn fusnes i bawb
- cefnogi seilwaith ac arweinyddiaeth sy’n galluogi cyfranogiad a chynnydd
- cysoni blaenoriaethau gwasanaethau, datblygu gweithlu ac addysg gyda nodau ymchwil
- meithrin gallu a hyder ar draws pob lefel o’r proffesiynau
- gwerthfawrogi a dathlu effaith ymchwil ar gleifion, ymarfer a pholisi

Mae hwn yn gynllun nid yn unig ar gyfer arweinwyr ymchwil, ond ar gyfer pawb sy’n defnyddio ac yn llunio tystiolaeth neu sy’n cael eu hysbrydoli gan dystiolaeth i wella gofal. Mae’n cefnogi gweledigaeth o weithlu hyblyg, gwybodus sydd wedi’i rymuso; un sy’n cyflawni uchelgeisiau Cymru Iachach drwy chwilfrydedd proffesiynol, dewrder ac ymdrech gyfunol.

Rydym yn estyn ein diolch i bawb a gyfrannodd at brosiect BLAENORIAETH. Mae eich mewnwelediadau, eich profiad a’ch dyheadau wedi llywio’r cynllun hwn, a bydd eich arweinyddiaeth barhaus yn hanfodol i’w gyflawni.

Rydym yn hyderus y bydd y cynllun gweithredu ymchwil strategol hwn yn gatalydd ar gyfer newid cynaliadwy ym mhob rhan o’r system, gan sicrhau bod ymchwil wrth wraidd yr hyn y mae’n ei olygu i fod yn nyrs, yn fydwraig neu’n weithiwr proffesiynol perthynol i iechyd yng Nghymru.

# Tabl cynnwys


| Rhif | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Diben: beth yw prosiect BLAENORIAETH? | 5 |
| 2 | Cefndir: materion ar gyfer ein proffesiynau | 8 |
| 3 | Crynodeb o’r prosiect: methodoleg ac ymgysylltu | 9 |
| 3.1 | Cwmpas | 9 |
| 3.2 | Amcanion | 9 |
| 3.3 | Canlyniadau cyflawnadwy allweddol y prosiect | 9 |
| 3.4 | Comisiynu a llywodraethu | 10 |
| 3.5 | Rhanddeiliaid | 10 |
| 3.6 | Ymgynghori ac ymgysylltu | 11 |
| 3.7 | Dulliau a fabwysiadwyd | 12 |
| 4 | Themâu a chanfyddiadau allweddol | 13 |
| 4.1 | Y dystiolaeth bresennol a’r achos dros newid | 13 |
| 4.2 | Canfyddiadau allweddol prosiect BLAENORIAETH | 15 |
| 4.2.1 | Caffis sgwrsio a gweithdai cyfyng-gyngor moesegol | 15 |
| 4.2.2 | Dadansoddi yn ôl band Agenda ar gyfer Newid | 16 |
| 4.2.3 | Datblygu camau gweithredu rheithgorau dinasyddion | 16 |
| 4.2.4 | Canfyddiadau sy’n dod i’r amlwg a datblygu camau gweithredu | 17 |
| 5 | Camau gweithredu a argymhellir | 21 |
| 5.1 | Cynlluniau gweithredu | 22 |
| 5.2 | Cynllun gweithredu strategol | 23 |
| 6 | Cydnabyddiaethau | 34 |
| 7 | Cyfeiriadau | 36 |

# Cynllun gweithredu strategol ar gyfer meithrin gallu ymchwil ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd yng Nghymru

## 1. Diben

**Pam prosiect BLAENORIAETH?**

Mae'r prosiect hwn wedi darparu cynllun gweithredu ymchwil strategol a fydd yn cael ei weithredu i ddefnyddio capasiti cyfunol nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar ddatblygu a chyflawni ymchwil.

Mae darparu strategaeth integredig yn gyson â'r polisi cyfredol yng Nghymru ac mae'n gwerthfawrogi arloesedd ym mhob maes ymarfer. Bydd gwireddu'r cynllun gweithredu hwn a'i gynlluniau gweithredu cysylltiedig, yn grymuso pob aelod o staff iechyd a gofal i ddefnyddio, cyflawni, arwain a chymryd rhan mewn ymchwil fel rhan o'i rôl, a theimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi wrth wneud hynny.

Uchelgais y cynllun gweithredu yw hyrwyddo'r cysyniad o 'ymchwil i bawb' ac amlinellu camau gweithredu pendant i wella ymarfer a meithrin capasiti a gallu, gan arwain yn y pen draw at ganlyniadau gwell i gleifion.

Mae'r ffordd y mae Cymru yn mynd ati i gefnogi a datblygu nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ym maes ymchwil yn arloesol ac mae'r cynllun strategol integredig yn adlewyrchu ymarfer amlbroffesiynol. Mae angen nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yng Nghymru sydd ag amryw o rolau a sgiliau ymchwil gan gynnwys:

- nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a all arfarnu tystiolaeth yn feirniadol a rhoi canllawiau ar waith
- nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a all gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau ymchwil yn eu maes clinigol
- arweinwyr nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd sydd wedi'u llywio gan ymchwil a all ysgogi a hyrwyddo ymchwil

- prif ymchwilwyr sy'n sicrhau cyllid ymchwil cystadleuol ac yn cyflawni synthesisau tystiolaeth, gwerthusiadau clinigol a phrosiectau ymchwil sylfaenol

Mae nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd mewn lle da i ysgogi ac arwain gweithgarwch arloesi strategol a blaenoriaethau ym maes ymchwil ar draws y proffesiynau, y cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol a'r gymuned fyd-eang y maent yn arwain ac yn ymarfer ynddi.  Drwy ymchwil, gall nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd wneud y canlynol:

- pontio'r blwch rhwng theori ac ymarfer, cynhyrchu tystiolaeth a rhoi arferion gorau ar waith yng Nghymru
- gweithio mewn ffordd amlbroffesiynol i ddatrys problemau anodd gydag atebion arloesol sy'n diwallu anghenion cymunedau yng Nghymru
- arwain a chyflawni ymchwil ar gyfer Cymru sy'n gosteffeithiol, yn gynaliadwy, yn arloesol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Mae prosiect BLAENORIAETH yn amserol o ystyried y cyd-destun strategol ehangach yn y DU (Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol [DHSC], 2021; Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain [ABPI], 2023; Y Cyngor Ymchwil Feddygol [MRC], 2025) a chynlluniau gweithredu a rhaglenni gwaith cysylltiedig.  Mae hefyd wedi dysgu gwersi gwerthfawr o brosiectau tebyg yn y DU.  Wrth i'r camau gweithredu o brosiect BLAENORIAETH gael eu rhoi ar waith, bydd yn helpu i ymwreiddio a normaleiddio ymchwil o fewn y proffesiynau.  Mae'r manteision gwirioneddol yn gyson â strategaeth ymchwil glinigol y DU (DHSC, 2021) ac yn cynnwys gwelliannau a chanlyniadau gwell o ran ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r manteision economaidd a chymdeithasol a welir o ganlyniad i ymchwil (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal [NIHR], 2021).

Mae'r cynllun gweithredu yn gyfle i ffocysu uchelgeisiau ar gyfer nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yng Nghymru yn y cyd-destun ehangach hwn, ond gan ystyried persbectif unigryw Cymru hefyd.  Mae wedi'i ymwreiddio'n gadarn yng nghamau gweithredu diwygiedig Cymru Iachach (Llywodraeth Cymru 2024), ac mae'n rhan annatod o'r weledigaeth ar gyfer datblygu capasiti a gallu ymchwil ymhlith gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, fel y'i disgrifir yn fframwaith ymchwil a datblygu'r GIG yng Nghymru (Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru,

2023). Mae hefyd yn adeiladu ar ganfyddiadau Hyrwyddo gyrfaoedd mewn ymchwil (Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, 2022).

# 2. Cefndir

**Materion ar gyfer ein proffesiynau**

Does dim strategaeth ymchwil benodol gennym yng Nghymru ar gyfer y grŵp hwn o broffesiynau nac ar gyfer unrhyw rai o'r proffesiynau unigol. Er gwaethaf cyd-destun strategol y DU, roedd hi'n glir o ddechrau'r prosiect bod rhwystrau sylweddol yn bodoli o hyd wrth sicrhau bod ymchwil yn hygyrch i bawb ni waeth beth fo'u proffesiwn, gradd, rhywedd, ethnigrwydd, arbenigedd clinigol neu leoliad y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Mae'r cymhlethdod a'r pwysau mawr sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu bod rhwystrau sylweddol i ddatblygu a darparu ymchwil (Bahadori et al, 2016) a rolau ymchwil (Cleaver, 2020) ar draws proffesiynau. Fodd bynnag, gall y rhwystrau hynny hefyd ysgogi cwestiynau mewn ymarfer proffesiynol a gwelliannau mewn gwasanaethau a gyrfaoedd cysylltiedig.

Cydnabyddir, er bod ymchwil wedi'i hymwreiddio'n gadarn yn hyfforddiant a rôl rhai gweithwyr proffesiynol, megis meddygon (Coleg Brenhinol y Meddygon, 2020), nad yw hyn bob amser yn wir ar gyfer nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (Y Cyngor Deoniaid Iechyd [CoDH], 2019). Dylai pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol allu asesu tystiolaeth yn feirniadol a'i defnyddio i ategu ei ymarfer. Fodd bynnag, mae siwrnai datblygu ymarferydd yn digwydd mewn tirwedd o gwricwla cyn cofrestru, sy'n amrywio'n sylweddol o ran y ffordd y maent yn cyflwyno myfyrwyr i ymchwil ac yn eu hamlygu iddi (CoDH, 2019a). Hefyd, mae cyd-destun a diwylliant ymarfer yn bodoli lle mae ymgysylltiad gweithwyr gofal iechyd cofrestredig proffesiynol ag ymchwil yn anghyson ar y gorau ac yn absennol ar y gwaethaf (Chalmers et al, 2023). Gan fod y manteision i sefydliadau sy'n weithredol ym maes ymchwil wedi'u dogfennu'n helaeth erbyn hyn (Bennett et al, 2012; Boaz et al, 2015; Ozdemir et al, 2015; Downing et al, 2017; Jonker a Fisher, 2018; Chalmers et al, 2023), mae angen i ni fod yn uchelgeisiol ac yn feiddgar ynghylch y dalent a'r cyfleoedd ymchwil yn y gweithlu (Jones a Keenan, 2021).

Mae cyfranogiad ac arweinyddiaeth nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ym maes ymchwil yn parhau i fod ar ei hôl hi o gymharu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Mae'r Swyddfa Cydlynu Strategol Ymchwil i Iechyd (OSCHR) wedi comisiynu adroddiad i nodi atebion posibl i'r gostyngiad yn y gweithlu academaidd clinigol ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol a gaiff ei gyhoeddi'n fuan.

# 3. Crynodeb o'r prosiect: methodoleg ac ymgysylltu

## 3.1 Cwmpas

Roedd cwmpas prosiect BLAENORIAETH yn cynnwys:

- nyrsys, bydwragedd a'r 13 o broffesiynau perthynol i iechyd, a ddiffinnir yng Nghymru fel therapyddion celf, therapyddion cerdd, deietegwyr, therapyddion galwedigaethol, orthoptwyr, orthotyddion, parafeddygon, ffisiotherapyddion, podiatregwyr, ymarferwyr seicoleg, prosthetyddion, therapyddion iaith a lleferydd, ar draws yr ystod o leoliadau a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal sylfaenol, eilaidd, cymunedol a chymdeithasol
- rolau gweithwyr cymorth ar draws nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd yng Nghymru

## 3.2 Amcanion

Drwy gydol y prosiect, mae ymrwymiad i sicrhau mynediad teg o ran amlygiad i ymchwil, cyfranogiad a gyrfaoedd ac i gael gwared ar rwystrau strwythurol a sefydliadol. Yr amcanion allweddol oedd:

- hyrwyddo mynediad teg a chyfartal i dystiolaeth, gwerthfawrogi tystiolaeth ac integreiddio tystiolaeth, gan sicrhau defnydd cyson o ymchwil mewn ymarfer i sefydlu a chynnal gofal o ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth
- cefnogi a chynnal ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol gynhwysol ar draws amryw leoliadau yn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol i feithrin arloesedd, ysgogi gwelliannau a gwella canlyniadau cyffredinol
- nodi a meithrin arweinwyr ymchwil a thalent newydd o gefndiroedd gwahanol i atgyfnerthu capasiti a gallu, gan sicrhau bod modd datrys heriau cymhleth, amlochrog ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithiol

## 3.3 Canlyniadau cyflawnadwy allweddol y prosiect

- ymchwilio i'r dirwedd bresennol a thueddiadau wrth ddefnyddio a datblygu ymchwil a'i rhoi ar waith ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a'r proffesiynau perthynol i iechyd, ac adrodd arnynt

- nodi bylchau, rhwystrau a ffactorau sy'n sicrhau bod modd defnyddio a datblygu ymchwil a'i rhoi ar waith, gan gynnig canfyddiad ehangach o'r heriau hyn
- cyd-ddatblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau a rhwystrau a nodwyd
- meithrin cydweithrediad ymhlith gweithwyr proffesiynol, ymchwilwyr, darparwyr addysg a sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i rannu a datblygu'r weledigaeth er mwyn sicrhau canlyniadau ymchwil gwell

### 3.4 Comisiynu a llywodraethu

Comisiynwyd y prosiect gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru a'r Prif Gynghorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd ac arweiniodd Llywodraeth Cymru fwrdd a fu'n goruchwylio'r prosiect.  Rhoddodd grŵp llywio yn cynnwys aelodau o gefndiroedd clinigol, academaidd a pholisi yn cynrychioli'r GIG, proffesiynau iechyd a gofal, asiantaethau cymunedol, academia, a grwpiau cleifion a'r cyhoedd arweiniad arbenigol ar gyfer y prosiect.  Cytunodd y grŵp llywio ar Gylch Gorchwyl, yn seiliedig ar ganllawiau cyhoeddedig (NIHR, 2023).

### 3.5 Rhanddeiliaid

Cafodd rhanddeiliaid eu mapio a'u cadarnhau gyda grŵp llywio'r prosiect.  Cafodd dulliau o ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn eu llywio gan amryw o ddulliau gwerthuso a dulliau'n seiliedig ar egwyddorion Dysgu Cyfranogol a Gweithredu.  Mae'r rhanddeiliaid allweddol yn parhau i fod fel a ganlyn:

- Comisiynwyr addysg, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
- GIG Cymru gan gynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd; Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) a gwasanaethau Cymru gyfan megis Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- NHS England, NHS Scotland, Health and Social Care Northern Ireland (HSCNI)
- Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) yng Nghymru
- Seilwaith ymchwil y DU a chyllidwyr ymchwil, er enghraifft, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Y Sefydliad Cenedlaethol Dros Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR), NHS Research Scotland (NRS)

- Cyrff rheoleiddio a phroffesiynol, er enghraifft, y Cyngor Proffesiynau Gofal Iechyd (HCPC), y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)
- Cynghorau a rhwydweithiau proffesiynol, er enghraifft, y Cyngor Deoniaid Iechyd (CoDH); y Cyngor ar gyfer Ymchwil Proffesiynau Perthynol i Iechyd (CAPHR); Rhwydwaith Gweithredu Rolau Academaidd Clinigol (CARIN)
- Roedd cymunedau rhanddeiliaid yn cynnwys cleifion a'r cyhoedd; arweinwyr a rheolwyr gweithredol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; myfyrwyr, gweithwyr cymorth, uwch ymarferwyr, ymchwilwyr, gweithwyr cyflawni ymchwil proffesiynol, arweinwyr ymchwil ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a'r 13 o broffesiynau perthynol i iechyd; nyrsys, bydwragedd
- Er eu bod y tu allan i gwmpas cynllun y prosiect, cafodd cydweithwyr Gwyddor Gofal Iechyd a Fferylliaeth eu hystyried yn rhanddeiliaid allweddol o fewn yr amgylchedd ymarfer amlddisgyblaethol.  Mae'r proffesiynau hyn hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu eu cynlluniau ymchwil strategol eu hunain yng Nghymru ac felly cafodd cynrychiolwyr eu gwahodd fel aelodau o grŵp llywio'r prosiect i sicrhau bod dysgu ac arferion gorau yn cael eu rhannu

### 3.6 Ymgynghori ac ymgysylltu

Gan gydnabod y cyd-destun strategol sefydledig a'r rhwystrau a'r heriau tra hysbys i ymchwil o fewn y proffesiynau, nod prosiect BLAENORIAETH oedd ennyn dealltwriaeth a mewnwelediad cyfoethog i ymchwil yng Nghymru o bersbectif y rhanddeiliad. Cytunwyd y dylai cynlluniau gweithredu dilynol nid yn unig adeiladu ar dystiolaeth bresennol ond hefyd archwilio'n fanwl i safbwyntiau penodol nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.  Byddai'r dull gweithredu hwn yn helpu i lywio camau gweithredu ac yn meithrin ymgysylltiad a pherchnogaeth o'r camau gweithredu hynny o fewn y gymuned ar yr un pryd.

Mabwysiadwyd y dulliau canlynol i hwyluso gweithgarwch ymgysylltu amrywiol a chynhwysol:

- caffis sgwrsio
- gweithdai caffis cyfyng-gyngor moesegol
- rheithgorau dinasyddion

Cafodd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr ei ddatblygu, ei adolygu gan y grŵp llywio a'i gymeradwyo gan fwrdd y prosiect.

### 3.7 Dulliau a fabwysiadwyd

Mabwysiadodd prosiect BLAENORIAETH sawl dull gwerthuso a dulliau yn seiliedig ar egwyddorion Dysgu Cyfranogol a Gweithredu. Roedd hyn o gymorth wrth gynnal deialog ar draws y grwpiau rhanddeiliaid gwahanol i nodi a thrafod, mewn modd democrataidd, atebion cadarnhaol i broblemau cyffredin, gan gyflawni nodau y cytunwyd arnynt (O'Reilly-de Brun, 2015). Defnyddiwyd dulliau naratif a dadansoddi thematig i nodi meysydd a themâu oedd yn dod i'r amlwg drwy gydol y gwaith ymgysylltu, gan gefnogi'r gwaith o gynllunio camau gweithredu yn ddiweddarach.

# 4. Themâu a chanfyddiadau allweddol

### 4.1 Tystiolaeth bresennol: yr achos dros newid

Mae polisïau, strategaethau a fframweithiau sy’n benodol i broffesiynau ac ymarfer yn hyrwyddo ymchwil a sgiliau a gweithgarwch cysylltiedig, gan bwysleisio pwysigrwydd ymarfer sy’n seiliedig ar wybodaeth ac a lywir gan ymchwil. Maent yn nodi uchelgeisiau clir ar gyfer datblygu gyrfaoedd ymchwil, gan sicrhau bod nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn gallu arwain a/neu ymgysylltu ag ymchwil (Llywodraeth Cymru, 2019; NHS England [NHSE], 2021; Llywodraeth Cymru, 2022; Health Education England [HEE], 2022; Coleg Brenhinol y Bydwragedd [RCM], 2021; Y Coleg Nyrsio Brenhinol [RCN], 2024).

Mae cyrff proffesiynol yn chwarae rôl bwysig wrth ledaenu canfyddiadau ymchwil, eirioli dros ymarfer sy’n seiliedig ar dystiolaeth, a chefnogi datblygiad sgiliau ymchwil. Mae llawer o’r cyrff proffesiynol yn darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol a grantiau sy’n benodol i broffesiynau i helpu aelodau i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau yn bodoli rhwng y proffesiynau gwahanol o ran lefel y cymorth sydd ar gael (Atwal a Sharma 2023).

Cydnabyddir yn eang bod arweinyddiaeth yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo ymchwil a datblygu gyrfaoedd ymchwil (Llywodraeth Cymru, 2019; NHS England [NHSE], 2021; Health Education England [HEE], 2022; Coleg Brenhinol y Bydwragedd [RCM], 2021; Llywodraeth Cymru, 2022; Y Coleg Nyrsio Brenhinol [RCN], 2024). Mae ymddygiad rheoli effeithiol wrth hyrwyddo ymchwil ymhlith nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn cynnwys dangos ymrwymiad cysyniadol a gweithredol i arferion sy’n seiliedig ar ymchwil (Gifford et al., 2018). Yn ogystal, mae adolygiad systematig o fframweithiau capasiti ymchwil ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn nodi bod meithrin cydweithrediad yn bwysig ar gyfer datblygu ymchwil (Matus et al., 2018).

Mae cefnogaeth helaeth i ddatblygu diwylliant ymchwil cynhwysol gydag argymhellion yn pwysleisio blaenoriaethu, hyrwyddo a normaleiddio ymarfer ymchwil. Fodd bynnag, ni cheir llawer o sôn am ymchwil yng nghynllun gweithlu 10 mlynedd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), a dim ond yng nghyd-destun addysg. Mae hyn yn nodi datgysylltiad, nid yn unig â strategaethau a amlinellir yn yr adroddiad hwn, ond hefyd â’r ysgogwyr polisi yn Cymru Iachach (Llywodraeth

Cymru, 2024), sy’n galw am ddull mwy integredig a chynhwysfawr o ymdrin ag ymchwil ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Ar draws y DU, mae cydnabyddiaeth helaeth o’r rôl y mae Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) yn ei chwarae wrth hyrwyddo gyrfaoedd ymchwil. Fodd bynnag, mae’r sefydliadau hyn o dan bwysau sylweddol i gydbwyso blaenoriaethau sy’n cystadlu (Farquaharson et al, 2024). Mae Coleg Brenhinol y Bydwragedd (RCM) yn benodol yn tynnu sylw at leoliadau ymchwil ar gyfer dysgwyr, cysyniad a bwysleisir hefyd yn Hyrwyddo Gyrfaoedd Mewn Ymchwil yng Nghymru (Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, 2022) ac yn Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023-2026) (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2023). Mae’r ddwy ddogfen yn pwysleisio’r angen am weithlu sydd â’r sgiliau ymchwil iawn i ddarparu canlyniadau gwell i gleifion.

Yng Nghymru, mae gan sefydliadau’r GIG rwymedigaeth gyfreithiol o dan y Ddyletswydd Ansawdd (Llywodraeth Cymru, 2023) i ddarparu gofal a thriniaeth o ansawdd uchel sy’n seiliedig ar dystiolaeth i gleifion. Fodd bynnag, yn aml, mae staff yn blaenoriaethu gofal clinigol dros neilltuo amser ar gyfer ymchwil, sy’n groes i gyflawni safonau ansawdd a diogelwch.

Mae’r cyfyng-gyngor moesol a moesegol a wynebir gan nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd wrth roi blaenoriaeth i ofal cleifion dros weithgareddau ymchwil yn cynnig rhywfaint o esboniad. Canfu adolygiad naratif o nyrsys sy’n cynnal astudiaethau mewn gofal sylfaenol eu bod yn profi gwrthdaro rhwng eu rolau, gan gydbwyso teyrngarwch i gleifion, bodloni gofynion ymarfer a chyfrannu at ymchwil (Ballintine a Potter, 2023). Mae rolau gwaith tebyg sy’n gwrthdaro wedi’u nodi hefyd fel ffactorau sy’n dylanwadu ar ddiwylliant ymchwil ymhlith gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (Borkowski et al., 2016). Mae datgysylltiad canfyddedig hefyd rhwng yr ymchwil sydd ei hangen ac sy’n cael ei rhoi ar waith, a’r ymchwil y mae angen ei chynnal ym marn nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. I adeiladu capasiti ymchwil mewn lleoliadau gofal iechyd, mae’n rhaid i weithwyr proffesiynol deimlo bod eu hymgysylltiad ag ymchwil yn cael ei werthfawrogi a’i fod yn cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarperir (Matus et al., 2018) Canfu un arolwg yn y DU fod 69% o syniadau gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ar gyfer traethodau hir wedi dod yn bennaf o gysyniadau unigolion, gan dynnu sylw at yr angen i sicrhau bod ymdrechion ymchwil yn fwy strwythuredig a chydweithredol (Cordrey et al., 2024)

Mae'r cyd-destun strategol ar gyfer ymchwil a'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes yn dangos bod amgylchedd cyfoethog ond cymhleth ar gyfer ymchwil ar draws y proffesiynau. Nod prosiect BLAENORIAETH oedd nodi ac archwilio cyfleoedd i fanteisio ar y cyfeiriad strategol presennol, gan ennyn dealltwriaeth ddyfnach o'r rhesymau dros heriau parhaol wrth gyflawni'r weledigaeth strategol hon.

### 4.2 Canfyddiadau prosiect BLAENORIAETH

Nododd prosiect BLAENORIAETH fod aliniad cryf â'r sylfaen dystiolaeth bresennol o ran cyflawni ac arwain gwaith ymchwil ac ymgysylltu ag ef. Nododd hefyd gyd-destunau a mân wahaniaethau drwy fapio tirwedd academaidd broffesiynol nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd, yn ogystal â thrwy ddadansoddi data a gasglwyd wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r canfyddiadau hyn wedi cael eu defnyddio i lywio gweithredoedd pendant a chyflawnadwy ac i ysgogi newid lle mae ei angen.

#### 4.2.1 Caffis sgwrsio a gweithdai cyfyng-gyngor moesegol

Daeth tri phrif faes a chwe thema (Ffigur 1) i'r amlwg wrth ddadansoddi gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gaffis sgwrsio, a chafodd y rhain eu harchwilio ymhellach drwy weithdai cyfyng-gyngor moesegol. Roedd y meysydd a'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn gyson, fwy neu lai, â'r llenyddiaeth bresennol ond roeddent hefyd yn darparu mewnwelediadau ychwanegol, gwerthfawr i lywio'r gwaith o ddatblygu camau gweithredu penodol ar gyfer mynd i'r afael â heriau ac ysgogi gwelliannau.

**Ffigur 1: Meysydd a themâu a nodwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid**

| Maes 1: canfyddiadau o ymchwil: diffiniadau, cysyniadau, gwerth | Maes 2: amgylchedd ymarfer a hyfforddiant | Maes 3: cyfleoedd anghyfartal |
|---|---|---|

**Themâu trawsbynciol:**

**amlygiad i ymchwil**

**cynhwysiant mewn ymchwil**

**ymchwil fel gyrfa**

**diwylliant ymchwil**

**seilwaith ymchwil**

**cydweithredu ar gyfer ymchwil i bawb**

### 4.2.2 Dadansoddi yn ôl band Agenda ar gyfer Newid

Cynhaliwyd caffis sgwrsio gwahanol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn ôl band Agenda ar gyfer Newid. Dyma'r tro cyntaf yng Nghymru i ddull cynhwysol o'r fath gael ei fabwysiadu i nodi'r mân wahaniaethau penodol a brofir gan nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, ni waeth beth fo'u band neu eu swydd o fewn sefydliad. Mae'r anghenion unigol sy'n gysylltiedig â phob band yn tanlinellu pwysigrwydd mynd i'r afael â phryderon, materion a meysydd datblygu penodol trwy ddull cynhwysol, Cymru gyfan sy'n adeiladu ar sgiliau presennol.

### 4.2.3 Datblygu camau gweithredu rheithgorau dinasyddion

Trefnwyd y camau gweithredu a gynigiwyd gan y rheithgorau dinasyddion yn ôl y chwe thema a nodwyd drwy gaffis sgwrsio a'r gweithdai cyfyng-gyngor moesegol, sef: amlygiad, cynhwysiant, gyrfaoedd, diwylliant, seilwaith a chydweithredu. Nodwyd rhwng 9 ac 17 o gamau gweithredu ar gyfer pob thema. Nododd dadansoddiad naratif yn gyson ei bod yn hanfodol bod y camau gweithredu hyn yn cael eu hategu gan well cyfathrebu a'r defnydd gorau posibl o'r seilwaith presennol.

Sicrhaodd dadansoddiad thematig pellach fod modd categoreiddio'r camau gweithredu yn fwy penodol i gynnwys:

- safonau proffesiynol ac addysgol
- darparu cwricwlwm israddedig
- meithrin hyder a sgiliau
- amlygrwydd ymchwil a thystiolaeth o effaith
- mynediad at ymchwil mewn ymarfer a'r disgwyliad sydd ynghlwm wrth hynny
- partneriaethau ar gyfer datblygu ymchwil
- arweinyddiaeth ar gyfer diwylliant a gwerth ymchwil
- seilwaith ymchwil
- datblygu gyrfa ymchwil

### 4.2.4 Canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg a datblygu camau gweithredu

Cafodd prosiect BLAENORIAETH gefnogaeth gref o ran yr angen am wybodaeth gyson a hygyrch am ymchwil gyda phwyslais ar sut y byddai amlygiad cynnar a pharhaus i ymchwil o fudd i nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. O bersbectif yn seiliedig ar dystiolaeth, mae adolygiad integreiddiol yn awgrymu nad ydym yn deall eto sut mae amlygiad cynnar i ymchwil yn dylanwadu ar gynlluniau gyrfa (Capper et al., 2023). Er i'r adolygiad ganolbwyntio ar fydwreigiaeth, credir bod modd trosglwyddo ei ganfyddiadau i broffesiynau eraill. Er bod cefnogaeth i amlygiad cynnar i ymchwil yng Nghymru, mae'n rhaid i unrhyw ymyriad o'r fath gael ei ddylunio'n ofalus a'i werthuso i sicrhau ei fod yn effeithiol.

Er bod astudiaethau wedi canfod bod nyrsys ymchwil yn gwerthfawrogi ymchwil oherwydd y gwelliannau y teimlir y gall eu gwneud i ofal cleifion (Ballintine a Potter, 2023), canfu prosiect BLAENORIAETH nad oedd nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn cydnabod ymchwil fel mecanwaith allweddol ar gyfer gwella canlyniadau cleifion. Mynegodd nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ddiddordeb mawr mewn dysgu am ymchwil, gan eu bod o'r farn ei bod o fudd wrth ddatblygu eu gyrfa. Mae llenyddiaeth yn cefnogi'r farn hon, gan awgrymu bod datblygu gyrfa yn brif ffactor ysgogi ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd sy'n cymryd rhan mewn ymchwil (Borkowski et al., 2016). Dylid nodi, yng Nghymru, fod rhaglenni Meistr Gwyddoniaeth (MSc) mewn ymarfer uwch yn amrywio o ran yr amlygiad i ymchwil a'r mathau o asesiadau ar draws cyrsiau a gomisiynir. Gall yr anghysondeb hwn effeithio ar lefel y wybodaeth

a'r sgiliau ymchwil y mae nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn eu datblygu, gan gyfyngu o bosibl ar effeithiolrwydd y rhaglenni hyn o ran meithrin capasiti a gallu ymchwil.

Mae buddsoddi mewn staff trwy weithgarwch hyfforddi a datblygu i ddylanwadu ar benderfyniadau, a rhoi'r offer, y systemau a'r amgylchedd sydd eu hangen arnynt i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol, yn un o werthoedd craidd y GIG. Yng Nghymru, mae ffocws wedi bod ar ddatblygu rolau clinigol sy'n canolbwyntio ar ymchwil, fel nyrsys, bydwragedd neu therapyddion ymgynghorol, yn hytrach na rolau academaidd clinigol (Carrick-Sen et al., 2019). Hyd yma, mae angen mwy o dystiolaeth i ddangos sut mae'r rolau hyn yn gwella capasiti a gallu ymchwil. Mae angen mwy o ymchwil i asesu'r effaith y gall y rolau hyn ei chael ar feithrin diwylliant cryfach ym maes ymchwil.

Nododd prosiect BLAENORIAETH hefyd densiynau a dryswch o ran ymarfer a rolau ymchwil, gan gynnwys perthnasedd cymwysterau a hyfforddiant academaidd. Roedd pryder ynghylch camu ymlaen mewn gyrfa ar ôl cwblhau PhD. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau arolwg a aeth ati i werthuso effaith cymwysterau PhD, lle roedd y ddoethuriaeth yn cael ei gwerthfawrogi mewn cyd-destunau academaidd ond nid mewn rolau clinigol (Watson et al., 2024). Dylid nodi bod ennill PhD yn hyfforddiant sylfaenol ar gyfer gyrfa ym maes ymchwil, ond roedd diffyg dealltwriaeth ynghylch rôl hyfforddiant ymchwilydd wrth ddatblygu ymchwil o ansawdd uchel i wella canlyniadau cleifion. Nodwyd bod cymwysterau PhD â chyflog, sy'n bodoli yn Lloegr drwy'r NIHR, yn fwy hygyrch oherwydd y cymorth ariannol, er bod heriau o hyd o ran gyrfa ar ôl eu cwblhau (NIHR, 2023a). Mae canfyddiadau adolygiad systematig hefyd yn awgrymu bod nyrsys â chymwysterau ôl-raddedig yn cael cyfleoedd gyrfa gwell, gan arwain at fwy o foddhad yn eu swydd (Abu-Qamar et al., 2020).

Roedd canfyddiad hefyd ymhlith rhanddeiliaid prosiect BLAENORIAETH nad oedd y prosiectau ymchwil yr ymgymerwyd â nhw yn gyson â blaenoriaethau ymchwil yng Nghymru. Gallai hyn helpu i esbonio'r farn nad oedd ymchwil yn weladwy nac yn cael effaith yn y GIG. Datgelodd canfyddiadau o arolwg CARIN (Rhwydwaith Gweithredu Rolau Academaidd Clinigol) (y Cyngor Deoniaid Iechyd [CoDOH] 2023) mai ychydig iawn o ymatebwyr oedd yn casglu data ar effaith ymchwil fel mater o drefn. Dylai hyn gael ei ystyried wrth ddatblygu camau gweithredu arfaethedig i gynyddu amlygrwydd ymchwil ac arddangos yr effaith wirioneddol y mae'n ei chael.

Aeth prosiect BLAENORIAETH ati i ystyried yn benodol yr hyfforddiant israddedig a gynigir yng Nghymru, a datgelodd ymarfer mapio ar draws Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) wahaniaethau o ran amlygiad i ymchwil a dyluniad y cwricwlwm, gan dynnu sylw at anghysondebau yn y ffordd y caiff ymchwil ei hintegreiddio mewn rhaglenni israddedig.  Canfuwyd gwahaniaethau hefyd rhwng gwahanol grwpiau proffesiynol, a all effeithio ar ddatblygiad sgiliau ymchwil ymhlith myfyrwyr.  Mae hyn, yn ei dro, yn creu heriau wrth hyrwyddo diwylliant ymchwil bywiog ac ar gyfer nodi talent ymchwil o fewn y gweithlu yn gynnar.

Tynnodd ymarfer ar wahân a aeth ati i fapio academyddion nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd yng Nghymru, y gall academyddion a gyflogir i addysgu dysgwyr israddedig fod yn ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa eu hunain, nad ydynt wedi sefydlu eu rhaglen waith eu hunain eto.  Gall hyn gyfyngu ar eu gallu i fentora dysgwyr ym maes ymchwil neu i integreiddio ymchwil yn llawn yn y cwricwlwm addysgu, gan effeithio o bosibl ar ddatblygu sgiliau ymchwil a meithrin ffordd o feddwl sy’n canolbwyntio ar ymchwil ymhlith dysgwyr.

Nododd prosiect BLAENORIAETH fod dryswch rhwng methodolegau ymchwil a gwella ansawdd, a all gael ei waethygu gan y dulliau a ddefnyddir gan SAUau i addysgu ymchwil a/neu wella ansawdd yng Nghymru.  Yn yr un modd, canfu adolygiad systematig fod rhywfaint o wahaniaeth rhwng ymchwil a gwella gwasanaethau (Chalmers et al., 2023).

Yn aml, nododd y rhai a ymatebodd i brosiect BLAENORIAETH fod amser gwarchodedig ar gyfer ymchwil yn ateb, ond mae yna faterion ehangach y mae angen mynd i’r afael â nhw o hyd.  Mwy o amser ar gyfer ymchwil oedd yr ateb mwyaf poblogaidd mewn arolwg yng Nghymru (Grŵp Trawsbleidiol y Senedd, 2021; Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, 2022a; Morrison et al., 2022).  Fodd bynnag, mae cwestiynau allweddol sydd heb eu hateb o hyd:  Faint o amser? Sut y caiff ei ariannu?  Pa effaith y bydd yn ei chael? A fydd ar gael i bawb?  Os nad eir i’r afael â’r cwestiynau hyn, bydd yn anodd integreiddio ymchwil mewn ymarfer, sef un o’r gwerthoedd craidd ar gyfer Cymru.

Gwyddys fod cael mynediad at gymorth ymchwil yn rhwystr i ddefnyddio ymchwil ym maes nyrsio (Morrison et al., 2022).  Ym mhrosiect BLAENORIAETH, nododd nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd hefyd fod hwn yn bryder, gyda SAUau ac, yn fwy cyffredin, adrannau Ymchwil a Datblygu, yn wynebu craffu.  Ymhlith y ffactorau allweddol a nodwyd roedd hygyrchedd, eglurder rolau, a


swyddogaeth.  Gallai adolygiad o gymorth ymchwil a datblygu, yn enwedig o ran cysondeb a hygyrchedd, sicrhau, o bosibl, fod y cymorth sydd ar gael ar gyfer y proffesiynau yn fwy teg.  Ym mhrosiect BLAENORIAETH, ystyriwyd bod modelau rôl amlwg, nid dim ond modelau rôl, yn hollbwysig (Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, 2022; Morrison et al., 2022).  Yn aml, caiff mentora ei nodi fel ffordd o hyrwyddo gyrfaoedd (Farquharson et al., 2024), ond does dim llawer o dystiolaeth i gefnogi ei effeithiolrwydd mewn ymarfer (Atwal et al., 2023, Sriram et al 2024).

## 5. Camau gweithredu a argymhellir

Datblygwyd 12 o gamau gweithredu trosfwaol trwy driongli (Ffigur 2):

- tystiolaeth bresennol yn cael ei nodi a'i hadolygu trwy brosiect BLAENORIAETH
- tystiolaeth a mewnwelediadau rhanddeiliaid o weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu ym mhrosiect BLAENORIAETH
- tystiolaeth a mewnwelediadau arbenigwyr gan gynnwys cymrodyr proffesiynol a grŵp llywio prosiect BLAENORIAETH

**Ffigur 2**




Mae cynllun gweithredu prosiect BLAENORIAETH (gweler 5.2) yn gwneud argymhellion ar gyfer camau gweithredu, a phwysleisir bod nifer o gamau gweithredu yn ymwneud â diweddaru dulliau presennol neu ymestyn arferion gorau ar draws proffesiynau, sefydliadau a lleoliadau. Bwriedir i bob proffesiwn ac ymarferydd o fewn cwmpas prosiect BLAENORIAETH weld eu hunain yn y cynllun gweithredu hwn ac i'r cynllun gweithredu nodi'r taflwybr gyrfa ymarfer ar gyfer y proffesiynau hyn.

Lle mae’r cynllun gweithredu yn cyfeirio at ‘ymchwil’, mae a wnelo hyn â gwybodaeth, sgiliau a gweithgareddau sy’n gymesur â’r hyn a ddisgwylir o rôl yr unigolyn:

- nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a all arfarnu tystiolaeth yn feirniadol a rhoi canllawiau clinigol ar waith
- nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a all gefnogi’r gwaith o gyflawni prosiectau ymchwil yn eu maes clinigol
- arweinwyr nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd sydd wedi’u llywio gan ymchwil a all ysgogi a hyrwyddo ymchwil
- prif ymchwilwyr sy’n sicrhau cyllid ymchwil cystadleuol ac yn cyflawni synthesisau tystiolaeth, gwerthusiadau clinigol a phrosiectau ymchwil sylfaenol

### 5.1 Cynlluniau gweithredu

Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith ar draws y system ac mewn ffordd gydweithredol, ac mae llawer o randdeiliaid wedi nodi meysydd lle ceir aliniad eisoes.

Bydd y gwaith o gyflawni camau gweithredu a gwerthuso canlyniadau yn cael ei oruchwylio gan berchennog noddi arweiniol.  Mae noddwyr wedi cael eu nodi yn seiliedig ar weithgarwch ymgysylltu hyd yma, aliniad sefydliadol â’r meysydd gweithredu, ac arweinyddiaeth bresennol mewn rhaglenni perthnasol.  Nid oes a wnelo hyn â gwaith ychwanegol neu ar wahân. Yn hytrach, mae’n ymwneud ag integreiddio ymchwil fel rhan greiddiol a gweladwy o’r hyn y mae ein gweithlu yn ei wneud ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ar bob lefel, ym mhob lleoliad.

Bydd noddwyr yn darparu goruchwyliaeth strategol ac yn cefnogi gweithgarwch gweithredu o fewn eu sefydliad nhw ac ar draws sefydliadau partner a rhwydweithiau perthnasol.

Yn ogystal, bydd grŵp gweithredu yn cael ei sefydlu i ddarparu goruchwyliaeth ac i sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cyflawni drwy broses gydgysylltiedig a chydweithredol.

## 5.2 Cynllun gweithredu strategol ar gyfer meithrin gallu ymchwil ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd yng Nghymru

| Thema cynllun gweithredu BLAENORIAETH | Camau gweithredu â blaenoriaeth a argymhellir | Perchennog noddi arfaethedig sy'n goruchwylio'r broses weithredu<br>Canlyniadau a ddisgwylir<br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych |
|---|---|---|
| Amlygiad | 1. Sefydlu tasglu yn cynnwys rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol, comisiynwyr addysg y GIG, a sefydliadau addysg uwch (SAUau) i archwilio ac adrodd ar safonau gofynnol ar gyfer cynnwys cwricwlwm cyn cofrestru sy'n ymwneud ag archwilio, gwerthuso, ansawdd a gwella gwasanaethau, a sgiliau ymchwil, ar gyfer pob proffesiwn iechyd y darperir hyfforddiant ar ei gyfer yng Nghymru | Perchennog sy'n noddi:<br>Y Cyngor Deoniaid Iechyd<br>Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?<br>Un safon ofynnol ar gyfer cynnwys cwricwlwm cyn cofrestru ar gyfer pob proffesiwn sy'n ymwneud ag archwilio, gwerthuso, ansawdd a gwella gwasanaethau, a sgiliau ymchwil<br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych<br>Set sgiliau gyffredin, ofynnol sy'n gysylltiedig ag ymchwil ar gyfer ein hyfforddeion amlbroffesiynol yng Nghymru<br>Mynediad teg at fwy o leoliadau ymchwil wedi'i ymwreiddio fel safon ofynnol yn y cwricwlwm |
| Amlygiad | 2. Gweithio gyda'r rheoleiddiwr i gryfhau'r pwyslais ar sgiliau ymchwil a phrofiad mewn prosesau ailddilysu ac achredu proffesiynol | Perchennog sy'n noddi<br>Prif Arweinwyr Proffesiynol<br>Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?<br>Cydweithredu â'r rheoleiddiwr i sicrhau y disgwylir mwy o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymchwil fel tystiolaeth mewn prosesau ailddilysu ac achredu proffesiynol |

| Thema cynllun gweithredu BLAENORIAETH | Camau gweithredu â blaenoriaeth a argymhellir | Perchennog noddi arfaethedig sy'n goruchwylio'r broses weithredu<br><br>Canlyniadau a ddisgwylir<br><br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych |
|---|---|---|
| | | **Enghreifftiau o sut mae da yn edrych**<br><br>**Cynyddu cyfeiriadau at ymchwil a gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag ymchwil yn nisgwyliadau'r rheoleiddiwr**<br><br>**Nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn darparu tystiolaeth o weithgareddau ymchwil yn aml i gefnogi rheoleiddio proffesiynol** |
| **Amlygiad** | **3. Cefnogi amlygiad i ymchwil sy'n gysylltiedig ag ymarfer drwy gydol gyrfaoedd ymarfer** | **Perchennog sy'n noddi**<br><br>**Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**<br><br>**Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?**<br><br>**Cynyddu ymgysylltiad dysgwyr cyn cofrestru â'r gwaith o gyflawni ymchwil mewn lleoliadau academaidd a lleoliadau sy'n seiliedig ar ymarfer**<br><br>**Rhaglen hyfforddi 'Sgiliau ar gyfer Ymchwil' wedi'i halinio â llwybrau datblygu gyrfa**<br><br>**Cydweithio â sefydliadau addysg uwch (SAUau) i gynyddu cyfraniad staff cyflawni ymchwil at addysgu o fewn rhaglenni academaidd**<br><br>**Enghreifftiau o sut mae da yn edrych**<br><br>**Gall nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ddisgrifio 'Sgiliau ar gyfer Ymchwil' sy'n gymesur â'u rolau ac mae ganddynt fynediad at hyfforddiant cysylltiedig** |

| Thema cynllun gweithredu BLAENORIAETH | Camau gweithredu â blaenoriaeth a argymhellir | Perchennog noddi arfaethedig sy'n goruchwylio'r broses weithredu<br>Canlyniadau a ddisgwylir<br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych |
|---|---|---|
| | | **Mwy o ddysgwyr cyn cofrestru yn profi ymchwil yn cael ei chyflawni mewn ymarfer clinigol gyda chleifion a chleientiaid**<br>**Mae gan staff sy'n cyflawni ymchwil yng Nghymru rolau hwyluso ymarfer neu addysgu ar y cyd** |
| **Cynhwysiant** | **4. Dylunio a gweithredu dull cyson i godi ymwybyddiaeth o weithgarwch ymchwil, cymorth, hyfforddiant, a chyfleoedd mewn lleoliadau ymarfer ledled Cymru** | **Perchennog sy'n noddi**<br>**Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**<br>**Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?**<br>**Hyrwyddo Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, seilwaith ymchwil y DU a chyfleoedd cyllido yn well drwy gynllun a dull cyfathrebu diwygiedig, i gynyddu ymwybyddiaeth a mynediad teg ar draws y gweithlu**<br>**Cymorth cyson, sylfaenol gan adrannau Ymchwil a Datblygu'r GIG i alluogi mynediad teg i gyfleoedd, gweithgareddau a chymorth sy'n gysylltiedig ag ymchwil**<br>**Ehangu mentrau ymwybyddiaeth o ymchwil a modelau gweithio presennol, i gynyddu amlygrwydd staff sy'n cyflawni ymchwil mewn ymarfer clinigol**<br>**Enghreifftiau o sut mae da yn edrych**<br>**Cynyddu ymwybyddiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymchwil ymhlith nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, ac ymgysylltiad â gweithgareddau o'r fath** |

| Thema cynllun gweithredu BLAENORIAETH | Camau gweithredu â blaenoriaeth a argymhellir | Perchennog noddi arfaethedig sy'n goruchwylio'r broses weithredu<br><br>Canlyniadau a ddisgwylir<br><br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych |
|---|---|---|
| | | **Cynyddu cyfranogiad adrannau Ymchwil a Datblygu'r GIG a staff sy'n cyflawni ymchwil mewn digwyddiadau datblygu staff, hyfforddiant a sesiynau cynefino sefydliadol** |
| **Cynhwysiant** | **5. Cydweithio â phartneriaid yn y system i adolygu mynediad at amser gwarchodedig ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ac effaith yr amser hwnnw, gan sicrhau aliniad â strategaeth DPP AaGIC a chynllun gweithredu ymchwil strategol prosiect BLAENORIAETH** | **Perchennog sy'n noddi**<br><br>**Addysg a Gwella Iechyd Cymru**<br><br>**Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?**<br><br>**Dulliau gwybodus a chyfiawn o ymdrin ag amser gwarchodedig DPP ar gyfer nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yng Nghymru**<br><br>**Deall sut y gallai amser gwarchodedig ar gyfer DPP fod yn fwy rhagnodol a chynnwys cyfleoedd i ymgymryd â gweithgarwch ymchwil sydd wedi'i alinio â strategaeth DPP AaGIC**<br><br>**Enghreifftiau o sut mae da yn edrych**<br><br>**Cymhwyso strategaeth DPP a darparu amser DPP gwarchodedig ar gyfer nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yng Nghymru mewn ffordd deg** |

| Thema cynllun gweithredu BLAENORIAETH | Camau gweithredu â blaenoriaeth a argymhellir | Perchennog noddi arfaethedig sy'n goruchwylio'r broses weithredu<br>Canlyniadau a ddisgwylir<br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych |
|---|---|---|
| **Cynhwysiant** | **6. Sefydlu Cymuned Ymarfer Ymchwil genedlaethol (rithwir) ym maes nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd i gysylltu, cydlynu ac atgyfnerthu cydweithredu, capasiti ac amlygrwydd ymchwil ar draws lleoliadau ymarfer** | **Perchennog sy'n noddi**<br>**Addysg a Gwella Iechyd Cymru**<br>**Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?**<br>**Cymuned ymarfer gynhwysol a ffyniannus sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn â'r seilwaith ymchwil yng Nghymru, sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o ymchwil, yn cefnogi'r defnydd ohoni mewn ymarfer, ac yn gwella cyfleoedd i gymryd rhan ac i arwain**<br>**Enghreifftiau o sut mae da yn edrych**<br>**Cyfleoedd mentora ymchwil estynedig a chynhwysol ar draws y gweithlu**<br>**Ymwreiddio hyrwyddwyr ymchwil mewn lleoliadau ymarfer i hyrwyddo diwylliant o ymchwil gynhwysol.**<br>**Cymrodoriaethau profiad cynnar wedi'u hariannu sydd wedi'u cysylltu â'r seilwaith ymchwil presennol ac sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau ymchwil proffesiynol** |

| Thema cynllun gweithredu BLAENORIAETH | Camau gweithredu â blaenoriaeth a argymhellir | Perchennog noddi arfaethedig sy'n goruchwylio'r broses weithredu<br>Canlyniadau a ddisgwylir<br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych |
|---|---|---|
| **Cynhwysiant** | 7. Ymwreiddio sgiliau ymchwil a sgiliau cysylltiedig mewn disgrifiadau swydd a phrosesau arfarnu i hyrwyddo ymgysylltiad a chydnabod ymchwil fel elfen greiddiol o ddatblygiad proffesiynol | **Perchennog sy'n noddi**<br>Cyfarwyddwyr Gweithlu Llywodraeth Cymru, cyflogwyr y GIG<br>**Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?**<br>Caiff cyfranogiad y gweithlu mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag ymchwil ar draws pob rôl swydd ei adrodd gan reolwyr<br>Mae adolygiadau o ddatblygiad personol yn cynnwys enghreifftiau o weithgareddau ymchwil sy'n gysylltiedig ag ymarfer sy'n berthnasol i rolau swyddi<br>**Enghreifftiau o sut mae da yn edrych**<br>Mae cynlluniau swydd a disgrifiadau swydd yn disgrifio'n glir wybodaeth, sgiliau a disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag ymchwil ym mhob band Agenda ar gyfer Newid.  Gall y rhain fod yn archwilio, gwerthuso, gwella a sgiliau ymchwil<br>Caiff enghreifftiau o weithgareddau ymchwil sy'n gysylltiedig ag ymarfer sy'n berthnasol i rôl swydd eu coladu gan unigolion a rheolwyr i lywio gweithgarwch adrodd fframwaith Ymchwil a Datblygu'r GIG |

| Thema cynllun gweithredu BLAENORIAETH | Camau gweithredu â blaenoriaeth a argymhellir | Perchennog noddi arfaethedig sy'n goruchwylio'r broses weithredu<br>Canlyniadau a ddisgwylir<br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych |
|---|---|---|
| **Cynhwysiant** | **8. Datblygu glasbrint cenedlaethol i gynyddu cyfranogiad grwpiau proffesiynol a dangynrychiolir mewn ymarfer ymchwil** | **Perchennog sy'n noddi**<br>**Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**<br>**Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?**<br>**Cymorth wedi'i dargedu i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a/neu sy'n wynebu heriau unigryw i gymryd rhan mewn ymchwil wrth ymarfer**<br>**Cynyddu cyfranogiad y gweithlu mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag ymchwil ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir**<br>**Enghreifftiau o sut mae da yn edrych**<br>**Grwpiau proffesiynol a dangynrychiolir yn cymryd rhan mewn gweithgarwch ymchwil ac yn ei arwain**<br>**Caiff astudiaethau achos enghreifftiol sy'n dangos arferion da ac effaith eu nodi i lywio ac ysgogi gwelliant parhaus o ran cynwysoldeb ymchwil** |
| **Diwylliant** | **9. Atgyfnerthu partneriaethau amlbroffesiynol amlwg ac effeithiol rhwng sefydliadau a mudiadau ymchwil ac iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel genedlaethol** | **Perchennog sy'n noddi**<br>**Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**<br>**Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?**<br>**Cyllid, cyfleoedd a blaenoriaethau ymchwil Cymru gyfan ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn fwy amlwg, yn cael eu lledaenu'n ehangach, yn cael eu halinio ag** |

| Thema cynllun gweithredu BLAENORIAETH | Camau gweithredu â blaenoriaeth a argymhellir | Perchennog noddi arfaethedig sy'n goruchwylio'r broses weithredu<br>Canlyniadau a ddisgwylir<br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych |
|---|---|---|
| | | **ysgogwyr polisi ac anghenion y boblogaeth ac ymarfer ac yn cael eu harwain gan seilwaith canolfannau ac unedau ymchwil Cymru**<br>**Mwy o waith partneriaeth a chydweithredu rhwng sefydliadau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ymchwil ar gyfer ymarfer a meithrin ymgysylltiad cynnar i ddatblygu syniadau ymchwil**<br>**Enghreifftiau o sut mae da yn edrych**<br>**Defnydd ehangach o arferion gorau enghreifftiol presennol i hwyluso cydweithrediad y GIG â phrifysgolion, gofal cymdeithasol a sefydliadau trydydd sector sy'n weithredol ym maes ymchwil, i gefnogi ymchwil sy'n berthnasol i ymarfer a datblygu sgiliau ymchwil**<br>**Mynediad wedi'i adrodd i gyllid sbarduno mewn SAUau, gofal cymdeithasol a sefydliadau trydydd sector sy'n weithredol ym maes ymchwil ar gyfer ymarferwyr** |
| **Diwylliant** | **10. Sicrhau bod ymchwil yn fwy amlwg drwy ehangu ac atgyfnerthu mecanweithiau ar gyfer rhoi gwybod am weithgarwch ymchwil ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd ar lefel sefydliadol** | **Perchennog sy'n noddi**<br>**Grwpiau cyfoedion gweithredol**<br>**Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?**<br>**Pob rôl arwain weithredol ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd yn adrodd tystiolaeth o weithgarwch ymchwil** mewn ymarfer i'w cymunedau proffesiynol priodol |

| Thema cynllun gweithredu BLAENORIAETH | Camau gweithredu â blaenoriaeth a argymhellir | Perchennog noddi arfaethedig sy'n goruchwylio'r broses weithredu<br><br>Canlyniadau a ddisgwylir<br><br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych |
|---|---|---|
| | | **Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn cynnwys datblygu diwylliant ymchwil a meithrin gallu a chapasiti ymchwil ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd**<br><br>**Enghreifftiau o sut mae da yn edrych**<br><br>**Cyfarwyddwyr Gweithredol a Dirprwy Gyfarwyddwyr y proffesiynau yn defnyddio Fframwaith Ymchwil a Datblygu'r GIG i ysgogi disgwyliadau ac adrodd gweithgarwch ymchwil ar draws gwasanaethau a chymunedau proffesiynol**<br><br>**Adroddiadau sefydliadol yn coladu tystiolaeth o'r canlynol:**<br><br>• **Lleoliadau ymchwil i fyfyrwyr; rolau cyflawni ymchwil; rolau ymarfer uwch, a gweithgarwch ymchwil mewn rolau ymgynghorol**<br>• **Cymrodoriaethau, dyfarniadau cyllido ymchwil yn cael eu sicrhau a'u cefnogi**<br>• **Portffolio ymchwil**<br>• **Enghreifftiau o effaith glinigol**<br>• **Arweinyddiaeth ymchwil** |

| Thema cynllun gweithredu BLAENORIAETH | Camau gweithredu â blaenoriaeth a argymhellir | Perchennog noddi arfaethedig sy'n goruchwylio'r broses weithredu<br><br>Canlyniadau a ddisgwylir<br><br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych |
|---|---|---|
| **Gyrfaoedd a seilwaith** | 11. **Gweithio gyda Chymuned Ymarfer Ymchwil genedlaethol (rithwir) nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd i ddatblygu** a hyrwyddo llwybr gyrfa ymchwil gweledol ar gyfer y proffesiynau yng Nghymru | **Perchennog sy'n noddi**<br><br>**Addysg a Gwella Iechyd Cymru**<br><br>**Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?**<br><br>**Gwybodaeth, sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau academaidd sydd eu hangen ar gyfer datblygu rolau cyflawni ymchwil a llwybrau gyrfa ymchwil, wedi'u disgrifio'n glir a'u cyflwyno mewn fformat hygyrch**<br><br>**Enghreifftiau o sut mae da yn edrych**<br><br>**Map llwybr gyrfa ymchwil ar-lein sy'n nodi llwybrau gyrfa mewn ymchwil** |
| **Gyrfaoedd a seilwaith** | **12. Atgyfnerthu arweinyddiaeth ymchwil ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd yng Nghymru** | **Perchennog sy'n noddi**<br><br>**Addysg a Gwella Iechyd Cymru**<br><br>**Beth rydym yn disgwyl ei gyflawni?**<br><br>**Diffiniadau clir, sefydledig o rolau academydd clinigol ac ymchwilydd clinigol, gan sicrhau mynediad cyson i gyfleoedd gyrfa ar draws y proffesiynau**<br><br>**Y gallu i nodi talent ymchwil yn ystod rhaglenni cyn cofrestru ar draws y proffesiynau** |

| Thema cynllun gweithredu BLAENORIAETH | Camau gweithredu â blaenoriaeth a argymhellir | Perchennog noddi arfaethedig sy'n goruchwylio'r broses weithredu<br><br>Canlyniadau a ddisgwylir<br><br>Enghreifftiau o sut mae da yn edrych |
|---|---|---|
| | | **Strategaeth glir i ddatblygu arweinyddiaeth ymchwil yn y gweithlu ymarfer uwch a'r gweithlu ymarfer ymgynghorol wedi'i chefnogi gan Fframwaith Proffesiynol AaGIC ar gyfer Ymarfer Clinigol Estynedig, Uwch ac Ymgynghorol**<br><br>**Cydweithio i ddatblygu, cefnogi a gweithredu argymhellion sy'n benodol i broffesiwn ac adrodd (e.e. Swyddfa Cydlynu Strategol Ymchwil i Iechyd [OSCHR]) i ddatblygu'r gweithlu academaidd clinigol**<br><br>**Enghreifftiau o sut mae da yn edrych**<br><br>**Mwy o nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn arwain ac yn datblygu ymchwil mewn sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ac mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru** |

# 6. Cydnabyddiaethau

Cafodd y prosiect hwn ei arwain a'i gyflawni ar y cyd gan y Cymrodyr Proffesiynol, Jayne Goodwin, Pennaeth Cenedlaethol Cyflawni Ymchwil Nyrsys, Bydwragedd a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac Anita Atwal, Darlithydd Cyswllt, Prifysgol South Bank, Llundain.

Hoffem estyn ein diolch diffuant i aelodau o Grŵp Llywio Prosiect BLAENORIAETH am eu harweiniad, eu harbenigedd a'u hymroddiad drwy gydol y broses o ddatblygu'r gwaith hwn.  Mae eu mewnwelediad a'u harweinyddiaeth gyfunol wedi bod yn hollbwysig wrth lywio cyfeiriad ac effaith y prosiect.  Yn benodol, hoffem gydnabod cyfraniadau'r canlynol:

- Jane Noyes, Athro mewn Ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Plant, Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor (Cadeirydd grŵp llywio prosiect BLAENORIAETH)
- Alison Richardson, Pennaeth Ymchwil Nyrsio, Strategaeth ac Arweinyddiaeth Academaidd, NHS England
- Ceri Battle, Epidemiolegydd Arweiniol ar gyfer Canolfan Ymchwil Meddygaeth Frys Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Chris Hopkins, Cadeirydd Grŵp Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Arloesi Gofal Iechyd Cymru Gyfan / Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol, Pennaeth TriTech, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Donna Mead, Cadeirydd, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Jane Lewis, Darllenydd Arweiniol Ymchwil Podiatreg mewn Podiatreg a Meddygaeth Gylchredol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Joanne Cooper, Dirprwy Gyfarwyddwr Ymchwil Nyrsio ar gyfer Trawsnewid Systemau, NHS England
- Julia Sanders, Athro Bydwreigiaeth Glinigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Prifysgol Caerdydd
- Karen Jewell, Prif Swyddog Bydwreigiaeth, Llywodraeth Cymru
- Kate Thirlaway, Deon, Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd
- Mark Knight-Davies, Ffisiotherapydd Cyhyrysgerbydol Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- Nicky Thomas, Cyfarwyddwr Cysylltiol ar gyfer Trawsnewid y Gweithlu Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Nigel Rees, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymchwil ac Arloesi, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Sarah Him, Arbenigwr Cymru Gyfan, Fferyllydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Sue Brierley Jobson, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Gofal Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Hoffem ddiolch hefyd i'r grŵp ehangach o randdeiliaid y mae eu hymgysylltiad a'u cyfraniadau wedi cyfoethogi'r prosiect hwn drwy eu safbwyntiau amrywiol, eu profiad proffesiynol, a'u hymroddiad i ddatblygu ymchwil iechyd.

Yn olaf, hoffem ddiolch i Fwrdd Prosiect BLAENORIAETH y mae ei weledigaeth, ei arweinyddiaeth, ei ymgysylltiad a'i gydweithrediad wedi bod yn hollbwysig wrth sicrhau cyrhaeddiad y gwaith hwn a'i berthnasedd ar draws y system iechyd a gofal.

Mae fersiwn estynedig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru gyda'r holl waith dadansoddi ac atodiadau.

## 7. Cyfeiriadau


- Abu-Qamar, M., Jackson, D., ac Al-Juari, M. (2020) The impact of postgraduate qualifications on career opportunities and job satisfaction among nurses: A systematic review Journal of Nursing Management, 28(5), tt. 1024-1032. https://doi.org/10.1016/j.nedt.2020.104489

- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) (2023) Cynllun Gweithlu 10 Mlynedd: Mynd i'r Afael ag Anghenion y Gweithlu mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Caerdydd. Ar gael yn Strategaeth gweithlu 10 mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol - AaGIC [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Atwal A a Sharma M (2023) FAIResearch: Supporting Inclusivity – Council of Deans Research Month 2023. Ar gael yn FAIResearch: Supporting Inclusivity – Research Month 2023 - Cyngor Deoniaid Iechyd [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Atwal, A., Sriram, V., a McKay, E. A. (2023). Mentoring for Black and Minoritized Allied Health Professionals in Health and Social Care: A Scoping Review. Journal of multidisciplinary healthcare, 16, 2251–2259. https://doi.org/10.2147/JMDH.S413085

- Bahadori, M., Raadabadi, M., Ravangard, R., a Mahaki, B. (2016). The barriers to the application of the research findings from the nurses' perspective: A case study in a teaching hospital. Journal of education and health promotion, 5, 14. https://doi.org/10.4103/2277-9531.184553

- Ballintine, A., a Potter, R. (2023). What are the experiences of nurses delivering research studies in primary care? Primary health care research & development, 24, e46. https://doi.org/10.1017/S146342362300035X

- Bennett, W.O., Bird, J.H., Burrows, S.A., Counter, P.R., Reddy, V.M. (2012) Does academic output correlate with better mortality rates in NHS trusts in England? Public Health, Cyfrol 126, Atodiad 1, Tudalennau S40-S43, https://doi.org/10.1016/j.puhe.2012.05.021

- Boaz, A., Hanney, S., Jones, T., a Soper, B. (2015). Does the engagement of clinicians and organisations in research improve healthcare performance: a three-stage review. BMJ open, 5(12), e009415. https://doi.org/10.1136/bmjopen-2015-00941

- Borkowski, D., McKinstry, C., Cotchett, M., Williams, C., a Haines, T. (2016). Research culture in allied health: a systematic review. Australian journal of primary health, 22(4), 294–303. https://doi.org/10.1071/PY1512

- Bullin C. (2018). To what extent has doctoral (PhD) education supported academic nurse educators in their teaching roles: an integrative review. BMC nursing, 17, 6. https://doi.org/10.1186/s12912-018-0273-3

- Capper, T. S., Haynes, K., a Williamson, M. (2023). How do new midwives' early workforce experiences influence their career plans? An integrative review of the literature. Nurse education in practice, 70, 103689. https://doi.org/10.1016/j.nepr.2023.103689

- Carrick-Sen, D. M., Moore, A., Davidson, P., Gendong, H., a Jackson, D. (2019). International Perspectives of Nurses, Midwives and Allied Health Professionals Clinical Academic Roles: Are We at Tipping Point? International Journal of Practice-Based Learning in Health and Social Care, 7(2), 1–15. https://doi.org/10.18552/ijpblhsc.v7i2.639

- Cleaver CJ (2020) Experiences of nurses transitioning to the role of research nurse. Nursing Times [ar-lein]; 116: 2, 55-58 Ar gael yn Experiences of nurses transitioning to the role of research nurse | Nursing Times [Cyrchwyd 25 Mawrth 2025].

- Coleg Brenhinol y Bydwragedd (RCM) (2021) Research and Development in Midwifery: Supporting Evidence-Based Practice and Career Development. Coleg Brenhinol y Bydwragedd, Llundain Ar gael yn NHS England » Chief Midwifery Officer for England’s strategic plan for research [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Coleg Brenhinol y Meddygon (2020) Research and education in medical practice:  Enhancing training and practice for doctors. Coleg Brenhinol y Meddygon, Llundain.

- Cordrey, T., Thomas, A., King, E., a Gustafson, O. (2024). Evaluating the perceived impact and legacy of master's degree level research in the allied health professions: a UK-wide cross-sectional survey. BMC medical education, 24(1), 750. https://doi.org/10.1186/s12909-024-05582-0

- Chalmers, S., Hill, J., Connell, L., Ackerley, S., Kulkarni, A., a Roddam, H. (2023). The value of allied health professional research engagement on healthcare performance: a systematic review. BMC health services research, 23(1), 766. https://doi.org/10.1186/s12913-023-09555-9
- Chalmers, S., Hill, J., Connell, L., Ackerley, S., Kulkarni, A., a Roddam, H. (2023). The value of allied health professional research engagement on healthcare performance: a systematic review. BMC health services research, 23(1), 766. https://doi.org/10.1186/s12913-023-09555-9
- Downing, A., Morris, E. J., Corrigan, N., Sebag-Montefiore, D., Finan, P. J., Thomas, J. D., Chapman, M., Hamilton, R., Campbell, H., Cameron, D., Kaplan, R., Parmar, M., Stephens, R., Seymour, M., Gregory, W., a Selby, P. (2017). High hospital research participation and improved colorectal cancer survival outcomes: a population-based study. Gut, 66(1), 89–96. https://doi.org/10.1136/gutjnl-2015-311308

- Farquharson C, McNally S, Tahir I (2024) Education inequalities, Oxford Open Economics 3, Atodiad 1 tt i760–i820, https://doi.org/10.1093/ooec/odad029

- Fry, S. a Johnstone, M.-J. (2008) Ethical and Legal Issues in Nursing. 3ydd argraffiad Pearson Education, Llundain.

- Fframwaith Polisi’r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2023) Balancing Benefits and Risks in Health and Social Care Research: Addressing Workforce Culture Challenges. Llywodraeth y DU, Llundain Ar gael yn UK Policy Framework for Health and Social Care Research - Health Research Authority [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Gifford, W. A., Squires, J. E., Angus, D. E., Ashley, L. A., Brosseau, L., Craik, J. M., Domecq, M. C., Egan, M., Holyoke, P., Juergensen, L., Wallin, L., Wazni, L., a Graham, I. D. (2018). Managerial leadership for research use in nursing and allied health care professions: a systematic review. Implementation science 13(1), 127. https://doi.org/10.1186/s13012-018-0817-7

- Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol (2023) Sut mae Ymchwil Feddygol o Fudd i Bobl Cymru Ar gael yn cadroddiad-ar-ymchwiliad-y-grwp-trawsbleidiol-ar-ymchwil-feddygol-2023-cymraeg.pdf [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Hall, A (2001). What ought I to do, all things considered? An approach to the exploration of ethical problems by teachers. Ar gael yn What ought I to do, all things considered? / Leading staff / Culture / Home - Educational Leaders [Cyrchwyd 25 Mawrth 2025].

- Head, B.W. (2022). The Rise of 'Wicked Problems'—Uncertainty, Complexity and Divergence. Yn: Wicked Problems in Public Policy. Palgrave Macmillan, Cham. https://doi.org/10.1007/978-3-030-94580-0_2

- Health Education England (2022) Allied Health Professions research and innovation strategy for England, HEE, Llundain. Ar gael yn Allied Health Professions' Research and Innovation Strategy for England | NHS England | Workforce, training and education [Cyrchwyd 25 March 2025].

- Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023) Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023-2026). Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd. Ar gael yn Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023-2026 - Iechyd Cyhoeddus Cymru [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Jones, D., a Keenan, A. M. (2021). The rise and rise of NMAHPs in UK clinical research. Future healthcare journal, 8(2), e195–e197. https://doi.org/10.7861/fhj.2021-009

- Jonker, L., a Fisher, S. J. (2018). The correlation between National Health Service trusts' clinical trial activity and both mortality rates and care quality commission ratings: a retrospective cross-sectional study. Public health, 157, 1–6. https://doi.org/10.1016/j.puhe.2017.12.022

- Laine-Gossin, J., DeKoven, S., a Bordman, R. (2022). Making connections: exploring residents' perspectives on a virtual World Café as a novel approach for teaching Indigenous health issues. Canadian medical education journal, 13(2), 92–95. https://doi.org/10.36834/cmej.73098

- Llywodraeth Cymru (2019) Ymchwil ac Arloesi mewn Gofal Iechyd: Polisïau ar gyfer Datblygu ac Ymgysylltu. Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

- Llywodraeth Cymru (2022) Strategaeth Ymchwil ar gyfer Cymru: Datblygu Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth. Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael yn https://healthandcareresearchwales.org/sites/default/files/2022-

11/Health_and_Care_Research_Wales-2022-2025-Plan_draft_cy.pdf [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Llywodraeth Cymru (2023) Dyletswydd Ansawdd: Gofynion Cyfreithiol i Sefydliadau'r GIG Ddarparu Gofal a Thriniaethau yn seiliedig ar Dystiolaeth. Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael yn Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Llywodraeth Cymru (2023) Dyletswydd Ansawdd: Gofynion Cyfreithiol i Sefydliadau'r GIG Ddarparu Gofal a Thriniaethau yn seiliedig ar Dystiolaeth. Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ar gael yn Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd [Cyrchwyd 25 Mawrth 2025].

- Llywodraeth Cymru (2024) Cymru Iachach: Camau Gweithredu ar gyfer Newid. Ar gael yn Llesiant Cymru, 2024: Cymru iachach [HTML] | LLYW.CYMRU [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Matus, J., Walker, A., a Mickan, S. (2018). Research capacity building frameworks for allied health professionals - a systematic review. BMC health services research, 18(1), 716. https://doi.org/10.1186/s12913-018-3518-7

- McGrath, C., Kennedy, M. R., Gibson, A., Musse, S., Kosar, Z., a Dawson, S. (2024). Correction to: World Cafés as a participatory approach to understanding research agendas in primary care with underserved communities: reflections, challenges and lessons learned. Research involvement and engagement, 10(1), 70. https://doi.org/10.1186/s40900-024

- Morrison, L., Johnston, B., a Cooper, M. (2022). Mixed methods systematic review: Factors influencing research activity among nurses in clinical practice. Journal of clinical nursing, 31(17-18), 2450–2464. https://doi.org/10.1111/jocn.16133

- NHS England (2021) Research and Innovation in the NHS: Policies and Strategies for Advancing Evidence-Based Practice. NHS England, Llundain. Ar gael yn NHS England » Maximising the benefits of research: Guidance for integrated care systems [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- O'Reilly-de Brun, M. (2015) Participatory Learning and Action: A collaborative approach to research' Journal of Community-Based Participatory Research, 8(2), tt. 1-12.

- Ozdemir, B.A., Karthikesalingam, A., Sinha, S., Poloniecki, J.D., Hinchliffe, R.J., et al, (2015) Research Activity and the Association with Mortality. PLOS ONE 10(2): e0118253. https://doi.org/10.1371/journal.pone.0118253

- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (2024) Gwerthoedd Craidd mewn Gofal Iechyd: Arwain Trafodaethau ar Gyfyng-gyngor Moesegol. Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Caerdydd Ar gael yn Fframwaith Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Prifysgol Durham (2023) Ethical Dilemma Framework: Guidance for Research in Practice. Prifysgol Durham, Durham.

- Sriram, V., Atwal, A., a McKay, E. A. (2024). Exploring aspects of mentoring for black and minoritised healthcare professionals in the UK: a nominal group technique study. BMJ open, 14(12), e089121. https://doi.org/10.1136/bmjopen-2024-089121

- Watson, J., Robertson, S., Ryan, T., Wood, E., Cooke, J., Hampshaw, S., a Roddam, H. (2024). Understanding the value of a doctorate for allied health professionals in practice in the UK: a survey. BMC health services research, 24(1), 566. https://doi.org/10.1186/s12913-024-11035-7

- Y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) (2024) Research Strategy for Nursing Practice and Career Development. Y Coleg Nyrsio Brenhinol, Llundain. Ar gael yn RCN-Research-Strategy-2024-to-2027-FINAL (1).pdf [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Y Cyngor Deoniaid (2023) The impact of metrics, CARIN annual survey. Ar gael yn The impact of metrics, CARIN annual survey – Research Month Blog 2023 | Cyngor Deoniaid Iechyd [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Y Cyngor Deoniaid Iechyd (CoDH) (2019) Strengthening the research capability of the allied health workforce: Opportunities and challenges. Cyngor Deoniaid Iechyd, Llundain. Ar gael yn UWE-HEE-CoDH-AHP-Leadership-Report-online-copy.pdf [Cyrchwyd 25 Mawrth 2025].

- Y Cyngor Deoniaid Iechyd (CoDH) (2019a) Becoming research confident – Research in pre-registration curricula for nursing, midwifery and allied health

programmes in the UK Council of Deans of Health, London. Ar gael yn Report: Becoming research confident – Research in pre-registration curricula for nursing, midwifery and allied health programmes in the UK | Cyngor Deoniaid Iechyd [Cyrchwyd 25 Mawrth 2025].

- Y Cyngor Dylunio (2005) The Double Diamond: A 4-Step Design Process. Y Cyngor Dylunio, Llundain. Ar gael yn The Double Diamond - Design Council [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd [NIHR] (2021) Strategaeth NIHR ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ar gael yn UK Policy Framework for Health and Social Care Research - Health Research Authority [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd [NIHR] (2023) Canllawiau Llywodraethu Ymchwil NIHR. Ar gael yn Research Governance Guidelines | NIHR [Cyrchwyd 25 Mawrth 2025].

- Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR) (2023a) Post-Doctorate Career Challenges in Health Research: Supporting the Workforce Beyond the PhD. Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal, Llundain.

- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (2022 a) Mae ymchwil yn bwysig; ein cynllun ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal yng Nghymru. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Caerdydd. Ar gael yn Mae ymchwil yn bwysig: ein cynllun ar gyfer gwella ymchwil iechyd a gofal yng Nghymrtu 2022 - 2025 [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (2022) Hyrwyddo Gyrfaoedd mewn Ymchwil. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Caerdydd. Ar gael yn Hyrwyddo gyrfaoedd mewn ymchwil: adolygiad o gyfleoedd ar gyfer gyrfaoedd mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (2023) Fframwaith Ymchwil a Datblygu'r GIG yng Nghymru. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Caerdydd. Ar gael yn Mae ymchwil yn bwysig - Sut olwg sydd ar ragoriaeth yn GIG Cymru [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].

- Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol [DHSC] (2021) UK Clinical Research Strategy. Ar gael yn HC 1043 – Department of Health and Social Care Annual Report and Accounts 2021-22 [Cyrchwyd 23 Mawrth 2025].